DWY

O

GERDDI

NEWYDDION

I.

O Gwynfan DYN Methiant am gynnorthwy
gyd Wladwyr.

II.

CAROL Duwiol o Debygoliaeth am Ddydd
Brawd.

TREFRYW

Argraphwyd gan David Jones. *tros* Hugh Evans.
lwy Llannor yn Sir Carnarvon. *yn y fl* 1781.

Ymadawiad y Brenin.

FY Mrodyr eurglod yn yr Arglwydd,
Sy 'n iâch iredd am holl chwiorydd,
Deliwch sylw fel rwy'n saledd;
Egwan wnnau ag yn wannedd,
Yr wy'n rhy ddi-allu i dynnu am dana,
Nag chwaith i ymwisgo maith yw'r wasgsa,
DUW am rhoes dan lwyra loes,
Er's ennyd oes anian,
Mewn dwl agwedd am dwy Law'n egwan,
Yn ddi-ymdrawiaeth ac yn druan,
Ni fedrai gynnyg dim i'm Gene,
Na bwyd na diod hyd fy Nyddie,
Heb *help* iw roi mi ges fy nghloi,
Nad allai ffoi om Carchar!
Tylawd wy'r dŷdd hyd wyneb Daear,
Ar Nôs im Gwely rwy mewn galar,
Ymhlwy *Llannor* darfu ngeni,
Hyd 5 mlwydd oed bum iâch a gwisgi,
Ond ar ryw noswaith alacth ŵylo,
Y *Polsi* ddaeth im llwyr ddi-sfrwytho,
Pan ddaeth im blino tosta blaenad,
Fel nad allwn droi na chwimied,
Na nesu draw na Throed na Llaw,
Mawr oedd y braw am brisodd,
Am holl Aelode a lwyr ddiffrwythodd,
Trwm oedd y dolur hwn am daliodd,
A Mam mewn Cynfas blina cwynfan,
Mewn cowir hares am cadie ei hunan,

Ffynon fydd iw gweld heb gudd
Ngwlad *Eifionydd* fwyna,
Mhlwy Llan-*Gybi* g'leuni glana,
Lewn dewr amod y mae'r Dŵr-yma,
Ar ol ymdrechi yn hon *dri Gwener*,
Hidrois i ymêndio gore mwynder,
Duw gryfhaes fy faledd wendid,
Mi ddois i fefyll om dwys ofid,
Rhwng fy Mam am Chwaer gwir ydi,
Wrth ddyfod adre o ffynnon *Gybi*,
Duw roes drwy'r dŵr help yn fiŵr,
Yn lewdwr im 'Lode,
Fel y gallwn fyned i ryw fanne,
I geifio eluſen rhag dwl eifie,
Duw roes imi draed i rodio,
Am gado wnaeth yn ol o Nwylo,
O gwelwch chwi fel yr ydwy fi,
Y dynion ffri dawnus,
Fydd yn y bŷd mewn jechyd iachus,
Rhowch fawl i enw Duw daionus,
Fe wyddoch oll fy Mrodyr anwyl,
Mae Dwylo fydd yn gwneud pob gorchwyl,
Ag nid oes bofib i neb hebddyn,
Wreud yn grynno waith un gronyn,
Er Pumlwydd oed oll arnâ i edrychwch,
Yr wy'n ddigon gwaeledd fel im gwêlwch
Heb wneud yn faith erioed ddim gwaith,
Nag unwaith ymelyd,
Fel im gwelwch mewn dim golyd,
Rhaid immi ymofyn am y mywyd,
Bendithion Duw a ddelo oddi-uchod,
I bob gwrda a roddo gerdod,
A phob merch fydd im helpu heb gudd,

Llawenydd Gwlad Nefol,
A Duw ddarparo Wlad tragwyddol,
Neu dda iw henaid dî wahanol.
Ein Jeſu Grift yr Oen Bendigied,
A dal heb gwynfan ar ei ganfed,
Ni fydd byth eiſie ar neb ſy'n rhoddî,
O 'wllys Calon eî 'luſeni
Y neb ſy'n freiniol yn cyfranû,
Echwyn ydio ir Arglwydd Ieſu,
Pan loſgo'r Bŷd yn gyfa i gyd,
Ar golud ſydd ynddo,
Pob dŷn graſol a geiff groeſo,
A fo 'n drugarog Criſt ſy'n gwirio,
Fe ddaw 'luſen ſo'n ddâ leſol,
Trwy Ange a Barn yn gadarn nerthol,
Hi fydd ynglyn wrth bnb un,
Fo'n rhoddi 'n ddŷn rhwyddedd,
Ac agore yn fwyn drugaredd,
Trwy Dduw fe ddaw yn ddâ 'n eî ddiwêdd.

Ellis Robert

Wiliam Criſmond.

YSawl ſydd yma rwan er tolwg dowch yn nes,
Gwrandewch ar *Gârol Duwiol* ali wneuthur i chw
(lê
Os ychwi 'n credu ir Arglwydd a chalon bur bob dyd
Fe ddyru ei *fendith* arnoch, ai ſſyniant ar eich Ffyd.
Mae Duw yn addo beunydd ir galon iſel fiyd,
Ddedwyddwch a daioni, a ſſyniant ar ei fyd;
Ac eilwaith mae fe 'n addo ir *beilchion* trowſion tynn,
Aflwydd ac anſſortyn a pheth ſy waeth na hyr?
Na chais di mor balchio pwy bynnag wyt ti o ddy
Nîd oes i ti yma o amſer ondtra fynno *Duw* ei hun,
Er cymaint yw dy gyfoeth er rched yw dy waed,

Daw amſer ir rhai gwaeth i'th ſathru dan eu traed.
Nid cryfder Gŵr na'i degwch all gadw *angau* draw
Pan fo fe ar fedr dwad, ni ettyl ddim mo'i Law,
Nid ellir mo'r ymguddied, na diangc rhagddo fo,
Mae'n canfod pawb o'i unman pa le bynnag ar ei ho!
Gwybyddwch hyn fy mrodyr, pan ddel yr angeu trift
I ddyfyn pawb i atteb ger bron *Gorſeddfainge* Criſt,
Ni ddichon neb roi eſcus na myned i ryw daith,
Na gwneuthur gwr o gyfraeth i atteb drofto chwaith.
Fe ddenfyn Duw ei *Angylion* i bedwar cwr y Byd,
I gaſglu 'r holl Eneidie, i dyfod pawb ynghyd,
I dderbyn taledigaeth gan farnu 'n gyfion gŵn,
Y *Diwrnod dychrynedig* meddylied pawb am hwn,
Meddyliwch hyn fy mrodyr er cariad un a thri,
Mae'r *'Sgrythyr-lan* yn eglur, yn dangos hyn i Ni,
Na cheiſſ un dŷn fynd ymaith, or craſterth ar ei hynt
Nes iddo fe roi cyfri am ei wei hredcedd gynt,
Pan ddelo Criſt in barnu a holl Angylion Nef,
Yn gadarn ag yn nerthol yn lluoedd gyd ag ef,
Bydd gwell i ni'r dydd hwnnw *Gydwybod* ddá mi ai gwn
Na phedfae'm ni i erchen ar filoedd or byd hwn.
Fe ddywed Criſt fy mrodyr ac ufudd blant fy Nhâd
Cymerwch gyſur bellach, a dowch ir hyfryd wlad,
Er î chwi gael eich eſtid, er mwyn y cywir Oen,
Cewch *Goron* y gogoniant yn wobr am eich poen.
Dowch ſeintiau bendigedig, yn llawen gyda mi,
Meddiennwch y Deyrnas honno a baratoed i chwi,
Er cyn fylfaenu 'r Ddaear na llunio cwmpas hon,
Fe ddarfu i mi eich dewis i ſefyll ger fy mron.
Chwi wnaethoch bob elufen o gariad arna'i'n hawdd
Yn ufudd meddeu wnaethoch ir fawl a fynrai rawdd;

Porthi

Porthi y rhai newynog a phob daionus ddawn,
Dowch chwithe 'n awr ir bywyd lle mae llawenydd

Mae yno'r fath hyfrydwch, yn llawên i bob dyn,
Gan yr Arglwydd Nefol fe ddywedodd Crist ei hun,
Nid allun galon ddeall na thafod adrodd chwaith,
Erioed ni welodd llygaid mo'r fath lawenydd maith,
Ein cyflwr bendigedig meddyliwch bawb am hyn,
Gael mynd ir Ddinas Sanctaidd at Gaer yr Iesu gwyn
Ac yno canfael aros, ond hyfryd ydyw'r lle,
I ganu *Halelhiah* ynghanol Seyrnas Ne.

Try at y gwrthodedig [illegible]
I roddi bain i'w [illegible]
Mewn cyffro mawr a [illegible]
Yngwydd Angylion Nefol fe [illegible]
Er gweld y rhai newynog yn [illegible]
Ni wnaethoch mo'r drugaredd i na dim gweithredoed

Y *Noeth* ar *gwan ſychedig* pan ddoent hwy heibio ar ga
Ni roesch mo'ch Cluſt un amſer i wrando ar ei llais

Ewch ymaith rai annuwiol chwi felldigedig fydd,
Lle mae'nt yn rhingcian danneddi yn wylo Nôs a Dydd
Ac yno 'n dioddau penyd mewn chwith dywyllwch maw
Heb obaith cael trugaredd na 'ſmwythder fynud Aw
Anghyſur yloeid clywed y colledigion drwg,
Yn ochain ac yn gweiddi wrth fynd ir tân ar mŵg,
Heb hyder am drugaredd na gair o gyſur dâ,
Am na buaſent *Ddu wiol*, ac mewn gweithredoedd da,

Wr

Wrth weled yr yſprydion Uffernol drwg ei ſawr,
gwneuthur oernad creulon bob munud yn yr awr
wygu bydd ei calon yn ddigon drwg ei ſain,
g mynd ir tân tragwyddol i boeni gyda rhain

Hwy ŵylant yn waſtadol gan angerddoen y tân,
ettô cryn ei danedd gan oerfel mawr a gan,
dall un galôn gnawdol ddeall faint yw'r boen,
n digwydd ar yr Enaid am gablu gwaed yr Oen,

hyn gochelwch gwîliwch rhag mynd i rwyd y fall,
wna ſe mor drugaredd ar ſawl y caſio wall,
d poeni rhain yn waſtad heb ddiben arnynt byth,
ewn tân a *brwmſtan* creulon digoſaint Duw a chwyth

ae'n dangos yn *'ſcrythyr* yn eglur i bob dyn,
id rhaid i neb mor ame a dd'wedodd Criſt ei hun,
ai liwybr byehan *cyſing* ingelwg nid yw ond gwael,
w'r ffordd ſy'n mynd ir bywyd ychydig ſydd iw gael,

Ar ffordd ſy'n myned i Uffern ſy'n llydan ac yn faith,
llawer ſy'n mynd iddi gwaeknw dies ſyth or daith,
lae Duw yn digio wrthyn tam iddynt ſod mor ffôl,
gŵrando ar la s y gelyn a gwneuthur ar ei ol,

Na ſyddwch chwi ry chwanog i ddilyn crawdol chwant
i chwi yſgatſydd ennill o bunau lawer icant,
i bydd yr Enaid erddyn un gronyn nes ar hyn,

I gael am bechod bai dwn gan yr Arglwydd Iesu gwy

Er bod chwaryddiaeth ofêr yn rhyngu bodd ir crawd
Mae'n ddrwg ar lês yr Enaid medd gwyr o ddyſc ddyd
Braw
Er i chwi yn awr ei hoffi mor anwyl ach dwy law,
Fe a fydd ediſeirgeiych yn wir ryw ddydd â ddaw,

Nid oes gan i ddim ond hynny iw ddywedyd wrthyc
chw
Ond credwch bawb yn ffyddlon ir hwn fydd un a thr
Ac yno cewch heb ame yn hyſpys iawn mi ai gwn,
Dirugaredd Nef ich E[illegible]pan eloch or byd hwn.

Os goſyn neb yn uffle pwy a ganodd hyn er Duw,
Dywedwch chwithau iddynt *mae nghefny maes* mae'
byw
Mee yn dymuned arroch er cariad Duw mewn pryd
Cymeryd Ediſeiriwch cyn i chwi newyd Byd.

Eſan Cruffudd. 1700.

Deut. 25. 7. *Pſal.* 41. 1. 2. 3. *Eſay.* 58. 7. 8. *Diar* 19
17. *Tob.* 4. 7. 8. 9. *Act.* 20. 35. 1*Tim.* 6. 17. 18. 19
2*Cor* 9. 6 7. *Galat.* 6. 6. 7. 10. *Heb.* 6. 10. 2*Cor.* 6 hy
10. *Heb* 13. 2. 16. 1*Joan* 3. 17. 1*Pedr* 4. 8. 9. 10. *Mat*
25. 34. 35. 36.

DIWEDD